

Amynedd

Darllen: Luc 7:22

Wn i ddim a fyddwn i wedi hoffi cyfarfod ag Ioan Fedyddiwr. Edrychwch arno, allan yn yr anialwch, yn cynhyrfu'r gwrandawyr gyda'i genadwri, 'Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo' (Mathew 3:3). Mae'n ddyd rhydd, tanllyd, ymosodol a beiddgar, sy'n barod i herio'r sefydliad a'r unigolyn fel ei gilydd gyda'i neges fod y Meseia ar ei ffordd. Mae'n eu hargyhoeddi bod rhaid iddyn nhw ailfeddwl am eu bywydau ac ailgyfeirio eu hagweddu a'u bwriadau. Mae'n troi tu min at y Phariseaid a'r Sadwceaid yn eu galw'n 'epil gwiberod'. Mae'n dweud bod y 'fwyell eisoes wrth wraidd y coed; felly, y mae pob coeden nad yw'n dwyn ffrwyth da yn cael ei thorri i lawr a'i bwrw i'r tân' (Mathew 3:10). Mae ei neges yn codi braw ac arswyd. Ac eto, mae'n barod i gydnabod bod un mwy nag ef, 'un cryfach na mi'. Mae'r paratoad yn gyflawn, ac mae gwaith Ioan i bob pwrpas yn dirwyn i ben. Ac yna - carchar. Mae dyn yr anialwch, y dyn rhydd, yn awr wedi'i gaethiwo a'i gau mewn cell. Mae'r un oedd wedi paratoi ar gyfer y Meseia yn awr mewn hualau. Ac yn ei gell, mae'n cael cyfle i hel meddyliau. Mae amheun yn corddi yn ei feddwl. Tybed a oedd wedi cael ei dwyllo? Oedd o wedi cael ei ddadrithio? Mae'n mynnu atebion. 'Ai ti yw'r hwn sydd i ddod, ai am rywun arall yr ydym i ddisgwyl?' (Luc 7:19). Ond dydi Iesu ddim yn ateb y cwestiwn ar ei ben. Nid 'ie' pendant yw'r ateb.

Ond roedd digon o dystiolaeth i'w chael. Roedd y deillion yn gweld, y byddariaid yn clywed, y cloffion yn cerdded, ac roedd ei ddysgeidiaeth yn gwneud i bobl feddwl. Edrychwch o'ch cwmpas, meddai Iesu, wrth ddisgyblion Ioan. Ond nid atebion parod sydd ganddo ar eu cyfer. Nid mater o bwyso botwm a chael yr atebion i gyd ydyw. Byddai llawer yn dymuno hynny – gweddi fer, a dyna ateb i'r broblem ar unwaith! Pwyso'r botwm a chael cyfarwyddiadau printiedig sy'n dweud yn union beth i'w ddweud a beth i'w wneud.

Tybed ydyn ni'n chwennych y math hwn o fywyd ysbrydol? Eisiau trefnu bywyd gyda phob manylyn wedi'i brintio'n barod. Pa mor fanwl bynnag ydi'r cyfarwyddiadau, mae mwy o gyfyngiadau. Rhyddid ydi gair mawr y Ffydd Gristnogol – rhyddid sy'n ymddangos yn llawen a llon, ond dro arall mae'n rhyddid sy'n codi ofn arnom. Mae'r ffordd ymlaen ar brydiau'n glir, ond dro arall yn dywyll. Does yna ddim atebion sydd wedi'u teilwra'n ofalus. Pan ofynnodd Pedr sawl gwaith y dylai faddau i'r brawd oedd yn gwneud bywyd yn anodd iddo mae'n debyg iddo ddisgwyl ateb parod, cyfyngiadau pendant ac esboniad clir. Gofyn y cwestiwn anghywir a wnaeth Pedr. Cariad oedd yr ateb, nid mathemateg.

Yn ôl â ni at Ioan yn y gell. Yr hyn y mae Iesu'n ei ddweud wrtho yw 'Edrych, rwyt ti wedi cael sbel fach yma i feddwl a chysidro. Cyfle i fod yn amyneddgar yn hytrach na rhuthro i chwilio am atebion. Paid â bod mor fyrbwyll. Mae atebion parod yn gallu gwneud mwy o ddrwg yn y pen draw. Chwalu a dinistrio ffydd maen nhw, yn hytrach na'i chryfhau. Cymer amser i feddwl ac i sylwi.'

Myfyrdod pellach:

Sut fyddech chi'n mynd ati i bwysu a mesur cymeriad Ioan Fedyddiwr?

Pam nad oedd Iesu wedi rhoi ateb pendant, ar ei ben, i ddisgyblion Ioan?